

CYFARFOD Y CYNGOR a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 18fed Rhagfyr 2019 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, y Rhyl yn dechrau am 6.00pm.

YN BRESENNOL

Y Cyngorydd Mrs E. M. Chard (Maer)

Y Cyngorwyr B. Blakeley, Mrs J. Chamberlain-Jones, A.R. James, A. S. Johnson, B. Jones, K. R. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, R. J. Turner a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

96. CYCHWYN Y CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU

Cychwynodd Caplan y Maer, y Tad Charles Ramsay, y cyfarfod trwy arwain pawb a oedd yn bresennol mewn gweddi.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran J. Ball, Ms J. Hughes, Mrs P. M. Jones, Miss S. L. Roberts a T. Thomas.

97. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r cyngor a'i bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Y Cyngor - 20fed Tachwedd 2019 - Rhifau Cofnod 82-95

Cynigiwyd gan y Cyngorydd Mrs E. M. Chard ac eiliwyd gan y Cyngorydd A. S. Johnson a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 20fed Tachwedd 2019 - Rhifau Cofnod 28-30

Cynigiwyd gan y Cyngorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cyngorydd Ms J. L. McAlpine a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 4ydd Rhagfyr 2019 - Rhifau Cofnod 31-33

Cynigiwyd gan y Cyngorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cyngorydd A. S. Johnson a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Cadarnhau neu fel arall:

Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol - 4ydd Rhagfyr 2019 - Rhifau Cofnod 38-49

Cynigiwyd gan y Cyngorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cyngorydd A. R. James a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau ar gyfer gweithredu.

98. **CYFLWYNIAD: DATBLYGU CYMUNEDOL Y RHYL**

Croesawodd y Maer Ms Judith Greenhalgh (Prif Weithredwr) a Ms Nikki Jones (Arweinydd Datblygu Cymunedol, y Rhyl) i'r cyfarfod a'u gwahodd i annerch yr aelodau.

Cyfeiriodd Ms Greenhalgh at ffigurau Mynegai Amddifadiad Lluosog Cymru a oedd wedi eu cyhoeddi yn ddiweddar a'r canlyniadau negyddol ar gyfer y Rhyl er gwaethaf y buddsoddiad arwyddocaol yn y dref mewn perthynas â Chanolfan SC2, ysgolion uwchradd newydd a gwaith pellach sydd wedi ei gynllunio ar safle Marchnad Queens.

Dywedodd Ms Greenhalgh ei bod wedi sefydlu Bwrdd Datblygu Cymunedol y Rhyl yn cynnwys prif sefydliadau yn cyflenwi gwasanaethau allweddol yn y dref a oedd wedi arwain at benodi Ms Jones i gyflenwi ei amcanion.

Un o'r materion a nodwyd gan y bwrdd oedd datblygu cynnig tai cymysg i ddelio gyda digartrefedd ac i roi'r gorau i ddefnyddio cyfleusterau gwely a brecwast.

Roedd angen hefyd gwneud gwell defnydd o'r cyllid a oedd ar gael o'r arian fferm wynt.

Dywedodd Ms Jones ei bod yn ceisio hysbysu cynghorwyr tref a sir trwy gyfrwng cyfarfodydd Grŵp Cyfeirio Lleol ac roedd hefyd yn adrodd i gyfarfodydd Grŵp Ardal yr Aelodau. Roedd yn ystyried ei bod yn bwysig gwrandao ar bobl leol drwy sgwrsio yn hytrach na holiaduron a dywedodd y byddai'n croesawu cymorth cynghorwyr yn hyn o beth.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr aelodau, dywedodd y swyddogion:

- bod croeso i'r newyddion o £6.2 miliwn ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ond roedd angen gosod y ffigwr hwn yn erbyn pwysau cyllidebol o £11 miliwn, er y byddai'n cynorthwyo o ran amddiffyn gwasanaethau rheng flaen
- mai'r data a ddefnyddiwyd ar gyfer y ffigurau WIMD oedd y diweddaraf a oedd ar gael ac felly gallent fod nifer o flynyddoedd oed.

Gwnaeth yr aelodau y sylwadau canlynol:

- nid oedd trwyddedu landlordiaid tai amfeddiannaeth yn gweithio,
- roedd gan ysgolion rôl fawr i'w chwarae o ran delio gyda diffyg gwaith gyda rhai teuluoedd yn profi 2-3 cenhedlaeth o ddiweithdra ac yn derbyn bod hyn yn arferol.
- roedd y system gynllunio yn cael ei chamddefnyddio i alluogi creu tai amfeddiannaeth drwy'r drws cefn.
- y gallai'r Cyngor Tref, yn y gorffennol, fynychu cyfarfodydd Grŵp Ardal yr Aelodau ond roedd nawr wedi ei wahardd rhag gwneud hynny gan y Cyngor Sir.
- nid yw'r holl bobl difreintiedig yn byw ar y Promenâd ac roedd angen adnoddau i ddelio â phroblemau ledled y dref.

- mae canol y dref yn edrych yn dila ac yn rhoi argraff negyddol – mae pethau megis teledu cylch cyfyng yn pwyntio i lwar yn rhoi'r argraff nad oes neb yn malio.

Mewn ymateb i sylwadau'r aelodau, dywedodd Ms Greenhalgh:

- bod y Cyngor Sir yn rhannu dyheadau'r Cyngor Tref ar gyfer y Rhyl.
- bod MAG yn rhan o strwythur y Cyngor Sir ac mai'r Grŵp Cyfeirio Lleol yw'r fforwm y dylai chynghorwyr tref fwydo i mewn iddi.
- ei bod yn croesawu syniadau'r Cyngor Tref ond bod yn rhaid derbyn nad oedd adwerthwyr mawr yn mynd i ddychwelyd i'r stryd fawr, ac roedd yn falch bod y Prom yn gwella a bod dau hostel newydd wedi eu sefydlu.

Dywedodd Ms Jones nad arian oedd popeth, ond yn hytrach newid syniadau trigolion a'u grymuso. Roedd hyn wedi ei danlinellu gan ymgysylltiad trigolion gyda'r ddogfen Gweledigeth y Dref.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Clerc Dref, dywedodd Ms Greenhalgh y byddai'n rhannu gwerthusiad y Cyngor Sir o'r data WIMD gyda'r Cyngor Tref unwaith y byddai wedi ei wneud.

Ar ran y Cyngor Tref, diolchodd y Maer i'r swyddogion am fynychu.

99. **ADRODDIAD Y MAER**

Cyfeiriodd y Maer at ei phresenoldeb mewn digwyddiadau dros y mis diwethaf, yn enwedig mynychu perfformiad y "Little Shop of Horrors", goleuadau'r Nadolig a'r digwyddiad "Rockin' Rhyl".

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

100. **AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol y cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau an-rheolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) a manylion un cyflenwr ychwanegol i'r rhestr o gyflwynwyr ar ôl cymeradwyaeth gan yr aelodau.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r canlynol i'w talu a'i lofnodi gan ddau gynghorydd.

Taliadau Atodlen B i'w cymeradwyo (30ain Hydref hyd at 13eg Tachwedd 2019)

Cyflenwr	Manylion Cyflenwad	Rhif Taleb	Swm £
P Wilson Busking Cyfrif Elusen	2 x Docyn ar gyfer digwyddiad MIND Clwyd 14eg Rhagfyr 2019	894	16.00
Cyngor Sir Ddinbych	Cyfraniad i'r Rhaglen Ddigwyddiadau 2019/20	895	19,000.00
Fool's Paradise	Adloniant Digwyddiad Nadolig 07/12/19	896	984.00

Gunsmoke Communications	Amrywiol dreuliau ar gyfer digwyddiadau Nos Calan a Santes Dwynwen	897	47.40
Cyfrif Elusen Maer Llandudno	Cyfraniad	898	10.00
Cymen Cyfyngedig	Gwasanaethau Cyfieithu	899	60.00
Band Arian y Rhyl	Cyfraniad am wasanaethau ar Sul y Coffa	900	50.00
Y Cyng h E Chard	Cymorth Maer Tachwedd 2019	901	130.94
Ambiwklans Sant Ioan Cymru	Cyfraniad am wasanaethau ar Sul y Coffa	902	50.00
Cyngor Sir Ddinbych	Rhent yr Ardd Goffa	903	13.50
Cyngor Sir Ddinbych	Rhent Lloches Bws Ysgol Tir Morfa	904	1.00
Cyfanswm Atodlen B			£20,362.84

101. CAIS I ANNERCH Y CYNGOR: MR RICHARD KENDRICK, Y LLENG BRYDEINIG FRENHINOL

Dyweddodd Clerc y Dref bod Mr Richard Kendrick wedi cysylltu ag o ar ran y Lleng Brydeinig Frenhinol yn gofyn am gael annerch y Cyngor mewn perthynas â'r Apêl Pabi yn lleol a gofyn am gefnogaeth i ddigwyddiadau i nodi Pen-blwydd 75 Diwrnod VE.

PENDERFYNWYD o ystyried nifer y cyrff a oedd yn aros i annerch y Cyngor ar hyn o bryd, gofyn i Mr Kendrick ysgrifennu at y Cyngor yn hytrach na gwneud cyflwyniad.

102. CYNRYCHIOLYDDD AR GYRFF ALLANOL: PARTNERIAETH CYRCHFAN SIR DDINBYCH

Cyflwynodd Clerc y Dref ohebiaeth (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn gwahodd y Cyngor Tref i benodi cynrychiolydd i fynychu cyfarfodydd Partneriaeth Cyrchfan Sir Ddinbych.

PENDERFYNWYD enwebu'r Cynghorydd A. J. Rutherford.

103. CYSTADLEUAETH FFENESTRI'R NADOLIG 2019

Cyhoeddodd y Maer yn ffurfiol mai enillwyr y gystadleuaeth Ffenestri Nadolig 2019 a drefnwyd ar y cyd gan y Cyngor Tref a Grŵp Busnes y Rhyl oedd:

"Liffy's" ar gyfer y categori siop annibynnol a "MIND" ar gyfer categori siop elusen.

104. EITEM ER GWYBODAETH: MYNEGAI AMDDIFADIAD LLUOSOG CYMRU

Cyflwynodd Clerc y Dref grynodedb byr yn amlinellu prif ganlyniadau Mynegai Amddifadiad Lluosog Cymru (WIMD) a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

PENDERFYNWYD cyflwyno adroddiad pellach ar ôl gwerthuso'r data yn fanylach.

105. EITEM ER GWYBODAETH: TROCHFA GWYL SAN STEFFAN Y RHYL YR RNLI

Rhoddodd aelod fanylion y 'Drochfa Gwyl San Steffan' a drefnwyd i gefnogi'r RNLI a gofynnodd i'r aelodau ddsbarthu manylion.

106. EITEM ER GWYBODAETH: LLYTHYR GAN DRFEFNWYR EISTEDDFOD YR URDD

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn llythyr pellach gan drefnwyr Eisteddfod yr Urdd i'w chynnal yn Ninbych, yn gofyn i'r Cyngor Tref ail-ystyried ei benderfyniad i beidio â gwneud cyfraniad ariannol.

PENDERFYNWYD cadarnhau penderfyniad blaenorol y cyngor.

107. HOLI AC ATEB

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan aelodau'r cyhoedd a oedd yn bresennol.

108. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

109. RHYDDFREINIWR/WRAIG ANRHYDEDDUS - ADRODDIAD

Cyflwynwyd adroddiad Clerc y Dref (a ddsbarthwyd ymlaen llaw) yn nodi nad oedd enwebiadau wedi eu derbyn ar gyfer 2019.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

110. Y GYLLIDEB FLYNYDDOL

Ymhelach i gofnod rhif 48 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 4ydd Rhagfyr 2019, gofynnodd Clerc y Dref am gymeradwyaeth ffurfiol i'r argymhellion cyllidebol a'r Cynllun Adfer Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol a ddiwygiwyd ac i godi praesept ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/2021 a hysbysu Cyngor Sir Ddinbych o hynny.

Ar ôl ystyried argymhellion y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol, cymeradwyodd yr aelodau yr argymhellion yn amodol ar y gostyngiad yn y gyllideb wrth gefn o £15,000 i £14,320 gyda'r praesept a argymhellwyd yn gostwng o £554,291 i £553,661. Byddai hyn yn cynrychioli cynnydd 1.87% yn y braesept ond oherwydd cynnydd yn y sylfaen eiddo, ni fyddai angen unrhyw gynnydd yn y taliad Band D a fyddai'n aros ar £57.68.

PENDERFYNWYD:

- a. cymeradwo a chodi praesept o of £553,611 (Pum Cant a Phum Deg Tri Mil, Chwe Chant ac Un Bunt ar Ddeg) ar Gyngor Sir Ddinbych ar gyfer y flwyddyn ariannol yn cychwyn ar 1af Ebrill 2020, a hysbysu Cyngor Sir Ddinbych o hynny.
- b. newid Cynllun Adfer Cronfehdd Wrth Gefn Cyffredinol a argymhellwyd gan y pwyllgor fel y nodir yn adroddiad Clerc y Dref.

[Byddai hyn yn cynrychioli cynnydd o 0% ar gyfer eiddo Band D]

111. CANOLFAN GYMUNEDOL TYNEWYDD – ARGYMHELLION YR IS-BWYLLGOR ASESU RISG

Adroddodd Clerc y Dref a Chadeirydd yr Is-bwyllgor Asesu Risg yn llafar ar ei argymhellion fel y penderfynwyd yn union cyn cyfarfod heno.

Amlinellodd yr adroddiad fanylion tri opsiwn a oedd ar gael i'r cyngor a'r argymhellion a chytunwyd cymeradwyo'r trydydd opsiwn, ceisio trosglwyddo'r ganolfan i Gymdethas Gymunedol y Rhyl, yn amodol ar amodau ponodol.

PENDERFYNWYD:

- (a) awdurdodi Clerc y Dref i symud ymlaen gyda thrafodaethau gyda Chymdeithas Gymunedol y Rhyl yn ddarostyngedig i amodau yn ymwneud â thalu cyfraniad tuag at waith trwsio angenrheidiol a rhagofalon o ran gwerthu'r adeilad yn y dyfodol.
- (b) awdurdodi Clerc y Dref i weithredu mewn ymgynghoriad â Chadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a'r is-bwyllgor Asesu Risg.

112. EGWYL Y NADOLIG – DIRPRWYO PWERAU GWEITHREDOL

Gofynnodd Clerc y Dref i'r aelodau gymeradwyo'r trefniadau ar gyfer dirprwyo pwerau gweithredol i Glerc y Dref, mewn ymgynghoriad â'r cadeiryddion priodol yn ystod y cyfnod rhwng 19g Rhagfyr 2019 a 15fed Ionawr 2020, fel a ganlyn:

- Materion Dinesig - Maer a/neu Dirprwy Faer
- Materion Cynllunio - Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio
- Pwyllgor CSG - Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y pwyllgor CSG
- Holl faterion eraill - Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol

PENDERFYNWYD cadarnhau'r trefniadau.

113. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Dirprwy Faer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer:

Dyddiad: